Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dechrau'n Deg
Flying Start

# Canllawiau ar Deillianau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg

**Canllawiau ar gywain a chyflwyno deilliannau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar gyfer plant 0-5 oed sy'n cael cefnogaeth gwasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg yng Nghymru**

**Awst 2025**

**llyw.cymru**

# Cynnwys


Pennod 1: Diben y canllawiau 3

Pennod 2: Cefndir 4

Pennod 3: Y deilliannau 5

Deilliant 1: Newid yn y Plentyn 6

Deilliant 2: Newid yn y Gofalwr 6

Deilliant 3: Newid yn yr Ymarferydd 9

Deilliant 4: Newid yn yr Amgylchedd Gofal Plant 11

Cwestiynau Cyffredin 12

Rhestr termau 13



OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52581, ISBN digidol 978-1-80633-373-8


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

PENNOD 1

# Diben y canllawiau

**Mae'r canllawiau hyn yn nodi pa ddeilliannau sydd i'w defnyddio i arddangos effaith darpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg, a'u bwriad yw cefnogi Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ar draws Cymru i gasglu ac i gyflwyno'r deilliannau hyn.**

Mae'r canllawiau'n addas i bawb yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb dros gyflwyno neu gomisiynu darpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu **ar wahân i gymorth unigol** – mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth ar lefel gyffredinol, lefel y boblogaeth a lefel wedi'i thargedu a ddarperir yn Dechrau'n Deg ac mewn gwasanaethau ataliol eraill.

Rhaid cyflwyno'r deilliannau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg gan ddefnyddio'r llyfr gwaith Dechrau'n Deg ar gyfer Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, **ni fydd** Llywodraeth Cymru (LlC) yn casglu'r data hwn ar gyfer gwasanaethau ar wahân i Dechrau'n Deg. Dim ond data lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer plant sy'n gymwys i gael darpariaeth Dechrau'n Deg (h.y. o fewn ardaloedd cod post Dechrau'n Deg) sydd ei angen gan Awdurdodau Lleol sydd ddim yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau yn ôl cod post Dechrau'n Deg.

**Diffiniadau o ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu:**

**Cyffredinol:**

> *'I gynnwys unrhyw raglen sydd â dyddiad dechrau a gorffen a phan fo'r nodau a'r amcanion yn canolbwyntio'n **bennaf** ar ddatblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu y plentyn trwy wella rhyngweithiadau â rhieni/gofalwyr.'*

**Wedi'u targedu**:

> *'I gynnwys unrhyw raglen neu ymyriad sydd â dyddiad dechrau a gorffen a phan fo'r nodau a'r amcanion yn canolbwyntio'n **bennaf** ar ddatblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu y plentyn trwy wella rhyngweithiadau â rhieni/gofalwyr a phan fo'r plentyn/teulu **wedi'u nodi'n benodol** i gael cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.'*



PENNOD 2

# Cefndir

**Cafodd y deilliannau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu cyd-gynhyrchu gan weithgor o arbenigwyr lleferydd, iaith a chyfathrebu o bob cwr o Gymru. Cefnogwyd y trafodaethau gan y fframweithiau a'r canllawiau canlynol:**

- Canllawiau RCSLT ar gyfer mesur deilliannau y tu hwnt i ofal unigol: **Measuring outcomes outside individualised care – RCSLT**
- Y fframwaith cysylltiedig: **RCSLT-Measuring-Outcomes-Framework-June2021.pdf**
- Cwestiynau allweddol i'w gofyn wrth ddewis mesurau canlyniadau: rhestr wirio ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig **selecting-outcome-measures.pdf**.



PENNOD 3

# Y deilliannau

## Mae'r deilliannau fel a ganlyn:

> **Datganiad gweledigaeth:** *Mae plant yn dechrau'r ysgol gyda sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu gweithredol ac yn cyflawni eu potensial llawn.*

Bydd Prosiect Pengwin, sef pecyn lleferydd, iaith a chyfathrebu Cymru, yn cynnwys pwyntiau arsylwi pan fo'r plentyn yn 15, 27 a 42 mis oed, a bydd hynny yn casglu rhywfaint o ddata a allai ddangos a yw'r 'weledigaeth' hon yn cael ei chyflawni ar lefel y boblogaeth.

> **Deilliant terfynol:** *Bydd gan 90% o blant sy'n cael cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu cyffredinol neu wedi'i dargedu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n datblygu'n nodweddiadol pan fyddant yn 42 mis oed A bydd y 10% ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael eu nodi a'u cefnogi'n briodol.*[1]

Ni fydd disgwyl i bob Awdurdod Lleol na Bwrdd Iechyd ddangos tystiolaeth o'r deilliant terfynol hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r data ar lefel poblogaeth er mwyn pennu a yw'r bwlch anfantais yn lleihau i grwpiau sy'n wynebu risg. Mae'n bosibl na fyddwn byth yn cyrraedd 90%, ond byddai gwelliannau ar y llinell sylfaen o flwyddyn i flwyddyn yn dangos effaith.

D.S. Ni fydd y deilliant terfynol yn cael ei gasglu nes bod dull arsylwi ar waith gennym, felly bydd hyn yn cael ei gyflwyno ar yr un pryd â Phrosiect Pengwin.



1 D.S. Ni chyrhaeddwn fyth 100% o blant â sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n datblygu'n nodweddiadol, oherwydd bod yr ymchwil yn awgrymu y bydd gan 7-10% o'r boblogaeth anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu hirdymor.

## Deilliant 1. Newid yn y Plentyn

| Beth i'w fesur | Sut i'w fesur |
|---|---|
| ***Ni fydd Llywodraeth Cymru yn*** gofyn am hyn nes y bydd dull pwrpasol ar gael. | Amh |
| Daeth yr **adolygiad o sgrinio iaith gynnar yn addas ar gyfer plant yng Nghymru o enedigaeth hyd at 5 mlwydd oed** i'r casgliad nad oes gennym ddull pwrpasol o fesur 'newid yn y plentyn' ar hyn o bryd. | Felly, ni fydd LlC yn gofyn am y deilliant hwn nes y bydd dull o'r fath ar gael. |

## Deilliant 2. Newid yn y Gofalwr[2]

| Beth i'w fesur | Sut i'w fesur |
|---|---|
| **2.1** Bydd gofalwyr sy'n rhan o raglen neu ymyriad lleferydd, iaith a chyfathrebu **wedi'i dargedu** yn rhyngweithio â'u plentyn mewn ffordd ymatebol.<br><br>**DS** i'w gyflwyno **dim ond** pan fo'r plentyn/teulu yn mynychu ar ôl cael eu nodi'n benodol i gael cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.<br><br>**Y data y gofynnir amdano:**<br><br>• Nifer y gofalwyr a fynychodd 75% neu fwy o'r sesiynau a gyflwynwyd.<br><br>(Mae 'mynychu' yma yn golygu **yr un** gofalwr yn mynd i 75% neu fwy o'r sesiynau.)<br><br>• Nifer y gofalwyr a fynychodd ac y cofnodwyd sgôr ymatebolrwydd cyn ac ar ôl y sesiynau ar eu cyfer.<br>• Nifer y gofalwyr a fynychodd ac a ddangosodd welliant o ran ymatebolrwydd.<br><br>(Diffinnir 'gwelliant' fel cynnydd o **½ pwynt** o leiaf ar y raddfa ymatebolrwydd a ddefnyddir.) | Ymatebolrwydd cyn ac ar ôl ymyriad/Graddfeydd sgorio Rhyngweithio rhwng Oedolyn a Phlentyn (ACI).<br><br>**Adnoddau:**<br><br>Ymatebolrwydd: **PaRRiS** (un cwestiwn, â sgôr o 1 i 5, gan gynnwys ½ pwyntiau):<br><br>**'Rhowch sgôr i'r deuad rhiant-plentyn yr arsylwyd arno yn seiliedig ar sgoriau ymatebolrwydd rhiant'** [gweler y llawlyfr PaRRiS].<br><br>Ystyriwch ddibynadwyedd[3] rhwng ac o fewn graddwyr[4] – cynlluniwch ar gyfer sesiynau cymedroli.<br><br>Gall PaRRiS fod yn fwy dibynadwy ac yn fyrrach nag adnoddau ACI eraill. |

2 Diffinnir 'gofalwr' fel unrhyw oedolyn sy'n mynd i raglenni neu ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu i gefnogi plentyn sydd dan eu gofal, e.e. rhiant/gofalwr maeth/nain neu daid.

3 Mae dibynadwyedd rhwng graddwyr yn cyfeirio at gysondeb sgoriau rhwng arsylwyr ('graddwyr') **gwahanol** a gellir gwirio hyn drwy wneud ymarferion ar y cyd i raddio'r un rhyngweithiad, e.e. gan ddefnyddio fideos o rieni a phlant yn chwarae gyda'i gilydd.

4 Mae dibynadwyedd o fewn graddwyr yn cyfeirio at gysondeb mewnol – h.y. **yr un** graddiwr yn defnyddio'r un broses bob tro er mwyn cynhyrchu sgoriau tebyg ar gyfer rhyngweithiadau tebyg.

| Beth i'w fesur | Sut i'w fesur |
|---|---|
| **2.2** Bydd gan ofalwyr plant sy'n cael rhaglen neu ymyriad lleferydd, iaith a chyfathrebu **cyffredinol neu wedi'i dargedu** fwy o hyder wrth gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu eu plentyn.<br><br>**Y data y gofynnir amdano:**<br><br>• Nifer y gofalwyr a fynychodd 75% neu fwy o'r sesiynau a gyflwynwyd.<br><br>(Mae 'mynychu' yma yn golygu **yr un** gofalwr yn mynd i 75% neu fwy o'r sesiynau.)<br><br>• Nifer y gofalwyr a fynychodd ac y cofnodwyd sgôr hyder cyn ac ar ôl y sesiynau ar eu cyfer.<br><br>• Nifer y gofalwyr a fynychodd ac a ddangosodd welliant o ran hyder.<br><br>(Diffinnir 'gwelliant' fel cynnydd o **1 pwynt** o leiaf ar y raddfa hyder a ddefnyddir.) | **Adnoddau:**<br><br>Graddfeydd sgorio hyder cyn ac ar ôl ymyriad, e.e.:<br><br>**'Ar raddfa o 1 i 10, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am ryngweithio â'ch plentyn mewn ffordd sy'n eu helpu i ddysgu i siarad?'**<br><br>Sylwer, er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru, dylid defnyddio graddfa hyder 10 pwynt. |
| **2.3** Bydd gofalwyr plant sy'n cael cefnogaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu **cyffredinol neu wedi'i thargedu** yn ymgysylltu â rhaglenni neu ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu.<br><br>**Y data y gofynnir amdano:**<br><br>• Y rhaglen neu'r ymyriad penodol a gynigiwyd.<br><br>• Nifer y gofalwyr a ymgysylltodd â 25%/50%/75% o'r sesiynau lleferydd, iaith a chyfathrebu a gynigiwyd. | **Presenoldeb mewn ymyriadau:**<br><br>• Nodwch y rhaglen neu'r ymyriad (e.e., grŵp iaith/Elklan).<br><br>• Cofnodwch nifer y lleoedd a gymerwyd.<br><br>• Cofnodwch pa ganran o'r sesiynau a fynychwyd gan yr un gofalwr. |

## Deilliant Rhif 2.1

Bydd gofalwyr plant sy'n mynychu rhaglen neu ymyriad lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi'i **dargedu** yn rhyngweithio â'u plentyn mewn ffordd ymatebol.

Nod y mesur hwn yw casglu gwybodaeth am newid yn ymddygiad oedolion o ganlyniad i ymyriad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Ymatebolrwydd oedolion yw prif darged y rhan fwyaf, os nad pob un, o'r ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu cyffredinol ac wedi'u targedu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y blynyddoedd cynnar. Gweler **adroddiad** yr Adolygiad o Ymyriadau yng Nghymru (WIRe) i gael crynodeb o ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu seiliedig ar dystiolaeth ar lefelau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu ar gyfer plant dan 5 oed. Gellir mesur ymatebolrwydd oedolion gan ddefnyddio graddfa sgorio PaRRiS neu ddull arall o fesur rhyngweithiadau rhwng oedolyn a phlentyn. Un cwestiwn sydd yng ngraddfa PaRRiS ac nid oes angen hyfforddiant ffurfiol cyn ei defnyddio (gweler **llawlyfr PaRRiS**).

Diffinnir newid cadarnhaol fel cynnydd o ½ pwynt o leiaf ar un eitem neu fwy ar y raddfa a ddefnyddir. Er enghraifft, ar raddfa PaRRiS, sydd ag uchafswm sgôr o 5, byddai gwelliant o ½ pwynt (e.e., o 3 i 3½) ar ôl ymyriad yn cael ei ddiffinio fel newid cadarnhaol.

Dylid ystyried dibynadwyedd rhwng graddwyr[5] ac o fewn graddwyr[6] pa raddfa bynnag a ddefnyddir. Byddai rhoi sesiynau goruchwylio ar waith ar gyfer pob ymarferydd sy'n defnyddio'r adnodd yn arfer dda er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gyson a dibynadwy o hyd.

Dylid cyflwyno sgoriau PaRRiS ar gyfer gofalwyr sy'n mynychu 75% neu fwy o sesiynau'r rhaglen neu'r ymyriad.

## Deilliant rhif 2.2

Bydd gan ofalwyr plant sy'n mynychu rhaglenni neu ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu cyffredinol neu wedi'u targedu fwy o hyder wrth gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Nod y mesur hwn yw casglu gwybodaeth ynghylch y newid yn hyder oedolion o ganlyniad i ymyriad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Gellir mesur hyn gan ddefnyddio graddfeydd sgorio hyder cyn ac ar ôl ymyriad (e.e, '**ar raddfa o 1 i 10, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am ryngweithio â'ch plentyn mewn ffordd sy'n eu helpu i ddysgu siarad?**'). Os oes mesurau hyder eraill yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, gellir cadw'r rhain a chyflwyno'r data arnynt, ond er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru, dylid defnyddio graddfa hyder 10 pwynt.

Diffinnir newid cadarnhaol fel cynnydd o 1 pwynt o leiaf ar y raddfa a ddefnyddir.

Dylid cyflwyno sgoriau hyder ar gyfer gofalwyr sy'n mynychu 75% neu fwy o sesiynau'r rhaglen neu'r ymyriad.

## Deilliant rhif 2.3

Bydd gofalwyr plant sy'n cael cefnogaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu gyffredinol neu wedi'i thargedu yn ymgysylltu â rhaglenni neu ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mesur allbwn yw hwn yn hytrach na deilliant. Mae'r gweithgor yn cefnogi'r penderfyniad i gadw'r mesur hwn, gan fod presenoldeb yn ddangosydd defnyddiol o ran ymgysylltiad.

Y data y gofynnir amdano:

- yr ymyriad a gynigiwyd.
- nifer y gofalwyr a ymgysylltodd â 25%/50%/75% o'r sesiynau lleferydd, iaith a chyfathrebu a gynigiwyd.

---

5 Mae dibynadwyedd rhwng graddwyr yn cyfeirio at gysondeb sgoriau rhwng arsylwyr ('graddwyr') **gwahanol** a gellir gwirio hyn drwy wneud ymarferion ar y cyd i raddio'r un rhyngweithiad, e.e. gan ddefnyddio fideos o rieni a phlant yn chwarae gyda'i gilydd.

6 Mae dibynadwyedd o fewn graddwyr yn cyfeirio at gysondeb mewnol – h.y. **yr un** graddiwr yn defnyddio'r un broses bob tro er mwyn cynhyrchu sgoriau tebyg ar gyfer rhyngweithiadau tebyg.

## Deilliant 3: Newid yn yr Ymarferydd

| Beth i'w fesur | Sut i'w fesur |
|---|---|
| **3.1** Bydd ymarferwyr yn rhyngweithio'n ymatebol â phlant ac yn rhoi strategaethau ar waith i helpu datblygiad eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.<br><br>***Nid yw LlC yn gofyn am hyn ar hyn o bryd***. | Amh |
| **3.2** Bydd gan ymarferwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant neu oruchwyliaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu fwy o hyder wrth gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.<br><br>**Y data y gofynnir amdano:**<br><br>• Nifer yr ymarferwyr a fynychodd hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu.<br><br>(Diffinnir 'mynychu' fel cwblhau'r hyfforddiant yn unol â gofynion y darparwr.)<br><br>• Nifer yr ymarferwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu ac a gyflwynodd sgôr hyder cyn ac ar ôl hynny.<br><br>• Nifer yr ymarferwyr a ddangosodd welliant yn eu hyder yn dilyn hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu.<br><br>(Diffinnir 'gwelliant' fel cynnydd o 1 pwynt o leiaf ar y raddfa hyder a ddefnyddir.) | **Adnoddau:**<br><br>Graddfeydd sgorio hyder cyn ac ar ôl ymyriad:<br><br>**'Ar raddfa o 1 i 10, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am ryngweithio â'r plant rydych yn gweithio gyda nhw mewn ffordd sy'n cefnogi eu datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu?'**<br><br>Neu<br><br>**'Ar raddfa o 1-10, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am gefnogi gofalwyr i helpu eu plant i ddysgu siarad?'**<br><br>neu fesur hyder a ddefnyddir yn lleol.<br><br>Sylwer, er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru, dylid defnyddio graddfa hyder 10 pwynt. |
| **3.3** Bydd ymarferwyr yn hunansgorio ar sail y Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn flynyddol er mwyn pennu anghenion hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu.<br><br>**Y data y gofynnir amdano:**<br><br>• Cyfanswm nifer yr ymarferwyr Dechrau'n Deg.<br><br>• Nifer yr ymarferwyr sy'n hunansgorio ar lefel sylfaenol/cyffredinol/uwch/arbenigol ar **y fframwaith**. | **Adnoddau:**<br><br>Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu – **SLCF**.<br><br>DS er mwyn hunansgorio i nodi cyflawni lefel benodol, rhaid i **80% o ddatganiadau'r** lefel honno fod wedi'u cyflawni. |

## Deilliant rhif 3.1

**Bydd ymarferwyr yn rhyngweithio'n ymatebol â phlant ac yn rhoi strategaethau ar waith i gefnogi datblygiad eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.**

Gan i gynifer o Awdurdodau Lleol ddweud nad oedd hi'n ymarferol iddynt fesur ymatebolrwydd ymarferwyr ar hyn o bryd, nid oes rhaid casglu data ar gyfer y deilliant hwn o fis Ebrill 2025 ymlaen.

Gellid casglu'r data hwn ar lefel leol ond nid yw Llywodraeth Cymru yn gofyn amdano.

## Deilliant rhif 3.2

**Bydd gan ymarferwyr fwy o hyder wrth gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.**

Cynlluniwyd y mesur hwn i gasglu gwybodaeth am y newid mewn hyder oedolion o ganlyniad i hyfforddiant neu oruchwyliaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan ddefnyddio graddfeydd sgorio hyder cyn ac ar ôl ymyriad e.e. '**Ar raddfa o 1 i 10, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am ryngweithio â'r plant rydych yn gweithio gyda nhw mewn ffordd sy'n cefnogi eu datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu?**' Os oes mesurau hyder eraill yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, gellir cadw'r rhain a chyflwyno'r data arnynt, ond er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru, dylid defnyddio graddfa hyder 10 pwynt.

Diffinnir newid cadarnhaol fel cynnydd o **1 pwynt** o leiaf ar y raddfa hyder a ddefnyddir.

## Deilliant rhif 3.3

**Bydd ymarferwyr yn hunansgorio ar sail y Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn flynyddol er mwyn pennu anghenion hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu.**

Bydd y lefel **SLCF** yn cael ei chofnodi fel nifer yr ymarferwyr sy'n hunansgorio ar lefel sylfaenol/cyffredinol/uwch/arbenigol.

Fel y nodir yn y fframwaith, er mwyn hunansgorio ar lefel benodol rhaid i ymarferwyr fod yn cyflawni o leiaf 80% ar y lefel honno (**SLCF Handbook**, 2017).

# Deilliant 4. Newid yn yr Amgylchedd Gofal Plant

| Beth i'w fesur | Sut i'w fesur |
|---|---|
| ***Ni fydd Llywodraeth Cymru yn*** gofyn am hyn nes y cytunir yn ehangach ar y dull Sicrhau Ansawdd. | **Adnoddau:**<br><br>Mesur ar gyfer amgylchedd sy'n gyfeillgar i gyfathrebu fel yr argymhellir yn y llwybr hyfforddi lleferydd, iaith a chyfathrebu (e.e. **rhestr wirio**). |

## Deilliant rhif 4

**Bydd lleoliadau gofal plant yn darparu amgylchedd cyfathrebu cefnogol.**

Yn sgil trafodaethau gyda'r gweithgor a chyda rhwydwaith Athrawon Ymgynghorol Dechrau'n Deg, cytunwyd na fydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am y data hwn nes y cytunir ar ddull cyson o Sicrhau Ansawdd.

Gellid casglu'r data hwn ar lefel leol ond ni fydd Llywodraeth Cymru yn gofyn amdano.

# Cwestiynau Cyffredin

### Pryd mae angen inni gyflwyno'r data?
Dylech gofnodi data rhwng Ebrill a Mawrth. Bydd eich tîm casglu data Dechrau'n Deg yn cael gwybod am yr union ddyddiad cau gan Lywodraeth Cymru.

### Sut gallaf fi gyflwyno'r data?
Dylid cydgasglu'r deilliannau ar lyfr gwaith LlC a'u cyflwyno gan ddefnyddio'r sianeli a gymeradwywyd yn lleol. Cysylltwch â'ch tîm casglu data Dechrau'n Deg lleol i gael rhagor o wybodaeth.

### Pryd ddylwn i gofnodi deilliannau gofalwr/ymarferydd os nad ydynt wedi gorffen yr ymyriad erbyn mis Mawrth?
Cofnodwch eu data yn y flwyddyn y maent yn **cwblhau'r** rhaglen/ymyriad/hyfforddiant.

### A oes angen i mi gyflwyno data ar gyfer gofalwyr sydd ddim yn gymwys i gael cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg
Na, yr unig ddata yr ydym yn gofyn amdano yw data am ofalwyr sy'n gymwys i gael cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg.

### A oes angen i mi gyflwyno data ar gyfer pob gofalwr sydd yn gymwys i gael cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu Dechrau'n Deg?
Nac oes, yr unig ddata y mae angen ichi ei gyflwyno yw data am y gofalwyr hynny sy'n mynychu 75% neu fwy o sesiynau mewn rhaglen neu ymyriad.

### A oes angen i mi gyflwyno data ar gyfer pob ymarferydd?
Nac oes, yr unig ddata y gofynnir amdano yw data am yr ymarferwyr sy'n cefnogi plant sy'n cael mynediad i Dechrau'n Deg.

### A oes angen i mi gyflwyno data ar gyfer sesiynau untro lleferydd, iaith a chyfathrebu?
Na, dim ond ar gyfer rhaglenni sy'n canolbwyntio'n bennaf ar leferydd, iaith a chyfathrebu y gofynnir am ddeilliannau. Ni fyddai sesiynau gwybodaeth untro yn cael eu cynnwys yn hyn.

### Rwy'n casglu data arall o ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu, a oes angen i mi ei gyflwyno?
Nac oes, dim ond data ar y llyfr gwaith y mae LlC yn gofyn amdano. Efallai y bydd gofyn i chi gasglu deilliannau ychwanegol at ddefnydd lleol.

### Os nad yw'r holl ddata gen i, a ddylwn i gyflwyno'r llyfr gwaith?
Dylech, dylech gyflwyno cymaint o ddata ag y gallwch.

### Sut ydw i'n gwybod bod ymarferwyr wedi cael sgôr o 80% neu uwch ar y lefel a nodir ar y fframwaith?
Ar dudalen trosolwg y fframwaith, mae 'current confidence level' i'w weld ar gyfer pob lefel. Bydd angen i ymarferwyr nodi'r ganran yn ogystal â'r lefel.

### Pwy sydd wedi datblygu'r deilliannau hyn a sut gallaf fi roi adborth neu awgrymu newidiadau?
Mae gweithgor o arbenigwyr o bob cwr o Gymru wedi datblygu'r deilliannau hyn mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Cysylltwch â **siaradgydafi@llyw.cymru** os hoffech roi adborth neu ddod yn aelod.

### Â phwy ddylwn i gysylltu os oes gennyf unrhyw ymholiadau?
Cysylltwch â'ch tîm casglu data Dechrau'n Deg yn y lle cyntaf. Os oes gennych ymholiadau penodol ynghylch lleferydd, iaith a chyfathrebu, cysylltwch â **siaradgydafi@llyw.cymru**.

# Rhestr termau

***Wedi Mynychu (gofalwyr)*** – **yr un** gofalwr wedi mynd i 75% neu fwy o'r sesiynau.

***Wedi Mynychu (ymarferwyr)*** – wedi cyflawni'r hyfforddiant yn unol â gofynion y darparwr.

***Gofalwr*** – unrhyw oedolyn sy'n mynd i raglenni neu ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu i gefnogi plentyn sydd dan eu gofal, e.e. rhiant/gofalwr maeth/nain neu daid.

***Gwelliant mewn hyder*** – cynnydd o 1 pwynt o leiaf ar y raddfa hyder a ddefnyddir.

***Gwelliant mewn ymatebolrwydd*** – cynnydd o ½ pwynt o leiaf ar y raddfa ymatebolrwydd a ddefnyddir.

Mae ***dibynadwyedd rhwng graddwyr*** – yn cyfeirio at gysondeb sgoriau rhwng arsylwyr ('graddwyr') **gwahanol** a gellir gwirio hyn drwy wneud ymarferion ar y cyd i raddio'r un rhyngweithiad, e.e. gan ddefnyddio fideos o rieni a phlant yn chwarae gyda'i gilydd).

Mae ***dibynadwyedd o fewn graddwyr*** – yn cyfeirio at gysondeb mewnol – h.y. **yr un** graddiwr yn defnyddio'r un broses bob tro er mwyn cynhyrchu sgoriau tebyg ar gyfer rhyngweithiadau tebyg.

***Ymarferydd*** – unrhyw oedolyn sy'n gweithio o fewn y gwasanaeth ac sydd â rôl yn cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu. Gall hyn fod yn ymarferwyr gofal plant, hyfforddwyr technegol therapi iaith a lleferydd, swyddogion rhianta, gweithwyr cymorth teulu ac ati.

***Wedi'i Dargedu*** – unrhyw raglen neu ymyriad sydd â dyddiad dechrau a gorffen a phan fo'r nodau a'r amcanion yn canolbwyntio'n **bennaf** ar wella rhyngweithio â rhieni/gofalwyr i ddatblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu y plentyn, lle mae'r plentyn/teulu **wedi'u nodi'n benodol** i gael cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.

***Cyffredinol*** – unrhyw raglen sydd â dyddiad dechrau a gorffen a phan fo'r nodau a'r amcanion yn canolbwyntio'n **bennaf** ar wella rhyngweithiadau â rhieni/gofalwyr i ddatblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu y plentyn.